# NEHEMEIA



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yr wythnos hon byddwn yn astudio Nehemeia. Ar ôl i Israel fod yn anufudd i Dduw, roeddynt wedi cael eu cosbi trwy gael eu cario i gaethiwed a chael eu dinasoedd wedi dinistrio. Roedd Nehemeia yn gyfrifol am helpu i ail-adeiladu Jerwsalem. Mae'r stori yn llawn i'w gadael yn llyfr Nehemeia. Rhai o'r prif bwyntiau byddwn yn astudio yw-

- Roedd Nehemeia yn pryderu dros deulu Duw.
- Gweddïodd Nehemeia a gweithredodd ar ei bryderon.
- Ni adawodd Nehemeia i eraill ei ddigalonni. Gwrandawodd ar Dduw.
- Gofynnodd Nehemeia i Dduw ei helpu.
- Atgyweiriodd Nehemeia'r wal fel daeth yr Iesu i wella ein perthynas gyda Duw.

## Cynllun y wers

Eglurwch fod yr Iddewon wedi anufuddhau i Dduw a bod Duw wedi eu cosbi trwy adael i wlad arall eu gorchfygu. Siaradwch am fel oedd yr Iddewon wedi cael eu cymryd ymhell o'u cartrefi i fyw mewn gwlad wahanol a gweini'r bobl yno. Meddyliwch am rhai gwledydd pell i ffwrdd ac edrychwch ar luniau. Trafodwch mor anodd gallai fod i fyw yno.

Rhannwch sut mae gan Nehemeia swydd bwysig yn gweithio i'r brenin fel ei bentrulliad. Eglurwch fod yn rhaid i bentrulliad fod yn ddibynadwy ac yn ffyddlon oherwydd ei swydd oedd cadw'r brenin yn ddiogel. Dangoswch fel y gallai Nehemeia fod wedi aros yn gyfforddus ym mhalas y brenin, ond roedd yn pryderu dros Dduw a phobl Duw. Meddyliwch am rhai ffyrdd mae pobl yn gadael eu cysur i ufuddhau Duw ac i ofalu am eraill.

Atgoffwch y plentyn bod y bobl i gyd wedi gweithio gyda'i gilydd i ail-adeiladu'r wal. Siaradwch am sut, pan rydym yn gweithio gyda'n gilydd, gallwn gyflawni mwy. Gwasgarwch deganau ar y llawr (neu gallwch ddefnyddio ffyn neu gerigos os ydych du allan). Gan ddefnyddio stop wats, amserwch y plentyn yn casglu'r pethau ar ben ei hun. Wedyn gwasgarwch y pethau eto. Y tro hyn defnyddiwch y stop wats i weld pa mor hir mae'n cymryd pan mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd.

Siaradwch am fel oedd Nehemeia wedi gweddïo a gofyn i Dduw ei helpu. Darllenwch Philipiaid 4:6 gyda'ch gilydd (efallai byddwch hefyd yn dewis dechrau dysgu'r adnod ar gof gyda'ch gilydd). Siaradwch am ddylen ni ddim poeni a dylen ni weddïo. Pwyntiwch allan bod yr adnod hefyd yn dweud i ddiolch i Dduw. Gwnewch restr o rhai o'r gofynion efallai bod gennych a rhai moliannau. Os yw'r plentyn yn rhy fach i ddarllen neu ysgrifennu, gallwch greu lluniau gyda'ch gilydd i gynrychioli eich gweddïau a'ch moliannau.

Eglurwch fod Nehemeia heb adael i eraill ei ddigalonni rhag gwneud y peth iawn. Siaradwch am fel weithiau bydd pobl yn annheg neu yn ceisio ein cael i wneud pethau drwg neu i beidio gwneud pethau da, ond rydym angen dilyn beth mae Duw yn dweud yn y Beibl.

Eglurwch mai yn Nydd Nehemeia, y ffordd roeddynt yn amddiffyn eu dinasoedd oedd adeiladu waliau mawr, cryf o'u cwmpas. Siaradwch am fel oedd y fyddin arall wedi dinistrio waliau Jerwsalem. Gallwch adeiladau dinas fach gyda waliau allan o flociau, Lego neu bethau eraill sy'n addas. Siaradwch am fel oedd y wal yn cadw pobl yn ddiogel. Tarwch y wal i lawr ac eglurwch nad yw'r tai yn ddiogel bellach oherwydd does dim amddiffyniad o'u cwmpas. Wrth i chi siarad am Nehemeia, gallwch ddechrau ailadeiladu'r wal wnaethoch ddinistrio.

Eglurwch mai yn union fel y wal, mae pechod yn dinistrio ein perthynas gyda Duw. Trafodwch rhai o'r ffyrdd mae pobl yn bechod (gwnewch yn siŵr i gadw hyn yn berthnasol i oed y plentyn.) Siaradwch am fel y daeth yr Iesu i drwsio ein perthynas gyda Duw.

Gweddïwch a gofynnwch i'r Iesu drwsio eich perthnasau gydag Ef. Tynnwch allan y rhestr gwnaethoch o'r dymuniadau gweddi a chanmoli ac ychwanegwch nhw i'ch gweddi. Diolchwch i Dduw Ei fod wedi rhoi ffordd i ni ailadeiladu ein perthynas gydag Ef.



Gweithiodd Nehemeia a'r bobl yn galed iawn, iawn.

Ymhen dim ond 52 diwrnod roedd y wal a'r gatiau wedi gorffen.

Addolodd a diolchodd y bobl i Dduw.

Roedd y bobl i gyd yn gwybod mai Duw oedd wedi eu helpu i adeiladu'r wal.



# NEHEMEIA



Roedd Nehemeia yn byw mewn gwlad bell i ffwrdd ac roedd ganddo swydd bwysig yn gweithio i'r brenin.
Un diwrnod daeth brawd Nehemeia i aros. Dywedodd newyddion trist am Jerwsalem, y ddinas ble roedd eu teulu yn arfer byw.
Roedd Nehemeia eisiau helpu felly gweddïodd a gofynnodd i Dduw beth i wneud.



Pan welodd y brenin Nehemeia sylwodd bod Nehemeia yn edrych yn drist.

Dywedodd Nehemeia'r newyddion trist wrth y brenin a gofynnodd a gallai fynd yn ôl i Jerwsalem i helpu.

Roedd y brenin eisiau helpu Nehemeia a dywedodd wrtho gallai fynd a hyd yn oed ei helpu gyda'r pethau byddai angen.





Pan gyrhaeddodd Nehemeia yn Jerwsalem gwelodd bod llawer o waith angen ei wneud.

Gweddïodd eto a gofynnodd i Dduw ei helpu.

Roedd y bobl o gwmpas Jerwsalem yn gwneud hwyl am ben Nehemeia a cheisio ei ddychryn.


Doedd Nehemeia ddim yn gwrando arnynt. Gwrandawodd ar Dduw.


# Chwaraeon a Gweithgareddau


## Waliau Blociau Adeiladu




Defnyddiwch blociau adeiladu (neu wrthrychau o'r tŷ) i adeiladu wal o gwmpas gwrthrych.
Nesaf, gofynnwch i'ch plentyn daro lawr rhai o'r waliau. Gallech ddefnyddio teganau fel y gelyn i'w taro i lawr.
Helpwch eich plentyn i drwsio'r wal. Gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad am stori Nehemeia wrth i chi wneud hyn. Siaradwch am fel oedd Nehemeia yn siŵr o fod yn teimlo.









## Ras at y Giatiau

Mae Nehemeia pennod 3 yn sôn am lawer o giatiau. I'r gem yma defnyddiwn bedwar ohonynt (mae taflen argraffu i'w gael yn y wers.) Defaid, Ceffyl, Pysgod a Ffynnon. Teimlwch yn rhydd i gynnwys mwy o gatiau er mwyn gwneud y gem yn fwy anodd.
Argraffwch y tudalen gyda lluniau sy'n cynrychioli'r gatiau. Pan rydych yn galw enw'r giât rhaid i'ch plentyn rasio at y giât yna.


## Dysgwch am wlad bell i ffwrdd


I blant meithrin gall hyd yn oed y ddinas nesaf deimlo'n ffordd bell i ffwrdd. Helpwch eich plentyn i ddeall bod Nehemeia mewn gwlad bell.
Edrychwch ar y we am luniau o Susa sydd yn awr yn Iran. Ffeindiwch y lle ar fap a dangoswch mor bell oedd rhaid i Nehemeia deithio.
Gallwch hefyd ddysgu am ddiwylliant gwahanol i'ch un chi. Edrychwch am wybodaeth ar y we neu yn y llyfrgell leol. Ewch i fwyta mewn bwyty sy'n gwneud bwyd o ddiwylliant gwahanol. Ewch i weld teulu sydd wedi symud o wlad arall.





© 2024 truewaykids.com










© 2024 truewaykids.com

# Amlinellwch o gwmpas waliau’r ddinas




© 2024 truewaykids.com



## Lliwiwch y crysau i gydweddu'r timau


**Tîm Coch**



**Tîm Glas**



© 2024 truewaykids.com




Torrwch allan y siapiau i drwsio'r tyllau yn y wal



© 2024 truewaykids.com

# Torrwch allan darnau o bapur i orchuddio'r tyllau yn y wal



© 2024 truewaykids.com

# Adnod ar Gof:

Gweddïwch, byddwch

yn ddiolchgar

bob amser

Philipiaid 4:6

Gweddïwch, byddwch

yn ddiolchgar

bob amser

Philipiaid 4:6

© 2024 truewaykids.com

# Gobled Arian


Helpwch blant i ddysgu am waith Nehemeia fel cludwr cwpan i'r brenin gyda'r grefft hawdd i'w wneud yma.



## Pethau byddwch angen:

- Cwpan blastig neu bapur
- Cerdyn trwchus
- Tap neu glud
- Ffoil alwminiwm
- Gemau crefft neu bapur lliw

## Beth i'w wneud:



Amlinellwch rownd top gwpan papur ar gerdyn trwchus. Torrwch allan y cylch.



Tapiwch neu gludwch diwb bach cardfwrdd rhwng y cylch a'r cwpan papur.




Lapiwch bopeth mewn ffoil alwminiwm.




Addurnwch y gwpan gyda gemau neu bapur lliw.

© 2024 truewaykids.com


Torrwch a gludwch briciau papur i helpu Nehemeia adeiladu’r wal




© 2024 truewaykids.com




© 2024 truewaykids.com



© 2024 truewaykids.com



© 2024 truewaykids.com


© 2024 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



Trust and Obey

https://youtu.be/0SWoGlWcvN4

Nothing Is Impossible

https://youtu.be/SzYr3sXi2Js

Build It Up

https://youtu.be/mSNur9SWr8o



# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am glywed ein gweddiau.

Gofynnwch i Dduw i'ch helpu i ymddiried ac ufuddhau Ynddo.

## Wythnos Nesaf:

Esther

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2024 truewaykids.com